




CANLLAW LLAWN AMSER
2024/25

LLWYDDWCH
GYDA >> DYFODOL
DDISGLAIR
YMA >>



LLWYDDWCH YN COLEG GWENT

Mae'n amser cyffrous i ymuno â Coleg Gwent ac rwyf wrth fy modd eich bod yn ystyried astudio gyda ni. Yn y canllawiau hyn, fe gewch lawer o wybodaeth am yr ystod eang o gyrsiau yr ydym yn eu cynnig, yn ogystal â'n gwasanaethau cymorth sydd wedi cael eu cynllunio i'ch helpu chi i ffynnu yn y coleg.

Yn Coleg Gwent, rydym yn cynnig amrywiaeth o opsiynau astudio gan gynnwys Safon Uwch (Lefel A) a chysiau galwedigaethol sy'n cynnig dilyniant cryf i addysg uwch neu gyflogaeth. Pan fyddwch yn dewis astudio gyda ni, mae ein staff talentog wedi ymrwymo i'ch cefnogi bob cam o'r ffordd, p'un a ydych yn gadael yr ysgol, yn weithiwr proffesiynol ifanc neu'n rhywun sy'n dychwelyd i addysg ar ôl seibiant. Rydym yma i'ch helpu i wneud y penderfyniad cywir ar gyfer eich dyfodol.

Gydag addysgu o'r radd flaenaf, cyfleusterau sydd gyda'r gorau yn y maes a gweithgareddau allgyrsiol i roi hwb i'ch CV, gallwch fod yn sicr o gael y cyfleoedd gorau i'ch helpu i lwyddo a rhagori.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am ein cyrsiau, dewch draw i un o'n nosweithiau agored, lle gallwch weld y campws a sgwrsio â'n staff cyfeillgar!

**BYDD Y CANLLAW HYN YN CYNNIG I CHI
YR HOLL WYBODAETH SYDD EI HANGEN
ARNOCH AM EIN CYRSIAU LLAWN AMSER:**

» Lefel A » Prentisiaethau
» Cyrsiau Galwedigaethol

**OS YDYCH CHI'N BWRIADU ASTUDIO CWR
RHAN-AMSER NEU GWRS LEFEL PRIFYSGOL
– EDRYCHWCH AR EIN CANLLAWIAU DRWY
SGANIO'R COD QR PERTHNASOL:**

**ADDYSG
UWCH**



**RHAN-
AMSER**



GUY LACEY

» PENNAETH A PHRIF WEITHREDWR



CYNNWYS

- | | | | |
|----|---|----|--|
| 2 | CROESO | 38 | CYBER COLLEGE CYMRU |
| 4 | PAM DEWIS COLEG GWENT? | 39 | SAESNEG AR GYFER SIARADWYR
IEITHOEDD ERAILL |
| 6 | DIGWYDDIADAU AGORED | 40 | ADEILADU |
| 8 | CAMPYSAU | 42 | PEIRIANNEG |
| 12 | EICH CEFNOGI CHI | 44 | TRIN GWALLT A THERAPI HARDDWCH |
| 14 | Y TU ALLAN I'R YSTAFELL
DDOSBARTH | 46 | IECHYD, GOFAL A'R BLYNYDDOEDD
CYNNAR |
| 16 | BYWYD MYFYRWYR | 48 | SGILIAU BYW'N ANNIBYNNOL |
| 18 | EICH CANLLAWIAU I GYMWYSTERAU | 50 | CERBYDAU MODUR |
| 20 | CYMWYSTERAU SGILIAU | 52 | CERDDORIAETH, DRAMA A DAWNS |
| 21 | MATHEMATEG, SAESNEG A DYSGU
YN GYMRAEG | 54 | MYNEDIAD I ADDYSG UWCH |
| 22 | PRENTISIAETHAU | 56 | GWYDDONIAETH |
| 24 | LEFEL A | 58 | CHWARAEON, FFITRWYDD A
HAMDDEN |
| 28 | CYFRIFEG A BUSNES | 60 | GWASANAETHAU CYHOEDDUS |
| 30 | ASTUDIAETHAU TIR A GOFAL
ANIFEILIAID | 61 | TEITHIO A THWRISTIAETH |
| 32 | CELF A DYLUNIO, Y CYFRYNGAU,
FFOTOGRAFFIAETH | 62 | CYRSIAU RHAN-AMSER AC
ADDYSG UWCH |
| 34 | ARLWYO A LLETYGARWCH | | |
| 36 | CYFRIFIADURA A THECHNOLEG
DDIGIDOL | | |

PAM DEWIS

COLEG GWENT?



EIN LLWYDDIANT

Yn 2022/23, llwyddodd 97.4% o fyfyrwyr Lefel A y coleg i gael graddau A*-E, gyda graddau rhagorol ar draws 48 o feysydd pwnc galwedigaethol gwahanol hefyd!

CYFLAWNI EICH NODAU



Rydym ni yma i'ch helpu chi i gynllunio'ch llwybr gyrfa, p'un a ydych chi'n bwriadu symud i'r lefel nesaf neu ddilyn Gradd. Gallwn eich helpu chi!



CWRDD Â'R ARBENIGWYR

Mae ein tiwtoriaid profiadol sydd wedi ennill gwobrau yn arbenigwyr yn eu maes.

Felly, byddwch chi'n dysgu gan y gorau.



GWELLA EICH CYFLOGADWYEDD

Gallwn helpu i ddarparu cyfleoedd ar gyfer profiad gwaith, prentisiaethau a lleoliadau.



Y FFACTOR 'WOW'

Mae Digwyddiadau ar ddydd Mercher' ('What's on Wednesdays') yn rhoi slotiau amserlen pwrpasol i chi ar gyfer cyfoethogi'ch profiadau.

Manteisiwch ar ein cyfleusterau chwaraeon, clybiau a chymdeithasau, gwobr Dug Caeredin, cyfleoedd i godi arian a gwirfoddoli neu ymuno ag un o'n clybiau chwaraeon, a llawer mwy.

BYDD GENNYCH DIGON O DDEWIS!

Mae gennym ystod enfawr o gyrsiau, gyda dros 30 o bynciau Safon Uwch, 150 o gyrsiau galwedigaethol llawn amser a phrentisiaethau.

EICH CEFNOGI CHI



Bydd ein tîm o staff cymorth arbenigol yn eich helpu i gyflawni eich nodau.

Mae gan bob myfyriwr fynediad at gymorth ar gyfer dysgu, lles a chyllid, yn ogystal â chymorth arbenigol i'r rhai ag anawsterau dysgu neu anableddau.

RYDYM YN GWRANDO ARNOCH CHI



Byddwn yn defnyddio eich adborth i wella'r profiad o fod yn y coleg.

Yn wir, rydym wedi ennill gwobrau cenedlaethol am ein gweithgareddau i gydnabod llais y dysgwyr.



CYFLEUSTERAU ARBENIGOL

Bydd ein cyfleusterau o'r radd flaenaf yn eich helpu i gael profiadau ymarferol a thechnegol y byddwch yn gallu eu defnyddio yn y gweithle.

O salonau gwallt a harddwch a stiwdios recordio i weithdai cerbydau modur a bwyty gweithio llawn - mae digon i fanteisio arno!

RYDYM YN GOLEG AMRYWIOL A CHYNHWYSOL



Rydym yn goleg cynhwysol ac amrywiol lle mae croeso i bawb.

Rydym yn ymfalchïo mewn creu amgylchedd cynnes sy'n croesawu amrywiaeth, lle gallwch deimlo'n hyderus y gallwch fod yn chi eich hun heb yr ofn y byddwch yn cael eich barnu.

DIGWYDDIADAU

» AGORED

LLWYDDWCH GYDA'CH CAM NESAF

Mae ein digwyddiadau agored yn cwmpasu popeth sydd angen i chi ei wybod am fywyd yn y coleg. Rydym yn eich annog i gofrestru cyn mynychu, ond peidiwch â phoeni, mae croeso i chi alw heibio.

DIGWYDDIADAU AGORED AR Y CAMPWS

- » 15FED TACHWEDD 2023
5-7.30YP
- » 17EG IONAWR 2024
5-7.30YP
- » 2IL MAWRTH 2024
10YB-12.30YP
- » 29AIN EBRILL 2024
5-7.30YP
- » 25AIN MEHEFIN 2024
5-7.30YP

DIGWYDDIADAU AGORED RHITHIOL

- » 21AIN AWST 2024
6YP

COFRESTRU AR GYFER UN O'N DIGWYDDIADAU AGORED



Wrth gofrestru, cofiwch fod pynciau penodol yn cael eu dysgu ar gampysau penodol ac y bydd angen i chi fynychu digwyddiad agored ar y campws lle mae'r cwrs hwnnw'n cael ei gynnal.

» [COLEGGWENT.ACC.UK/AGORED](https://coleggwent.ac.uk/agored)

YN EIN DIGWYDDIADAU AGORED, GALLWCH



EDRYCH O GWMPAS Y
CAMPWS, CYFLEUSTERAU
AC YSTAFELLOEDD
DOSBARTH



DYSGU MWY AM GWRS NEU FAES PWNC
GAN EIN TIWTORIAID ARBENIGOL



CAEL GWYBODAETH AM
GYMORTH ARIANNOL A
THREFNIADAU TEITHIO



DARGANFOD MWY AM
EIN GWASANAETHAU
CYMORTH



DARGANFOD MWY AM Y
BROSES YMGEISIO A GWNEUD
CAIS YN Y FAN A'R LLE



DYSGU AM
YRFAOEDD POSIBL

CAMPYSAU

Yn Coleg Gwent, mae gennym bum campws bywiog ac amrywiol i ddewis ohonynt, felly rydym yn hyderus y byddwch yn dod o hyd i leoliad sy'n iawn i chi.

PARTH DYSGU TORFAEN

Yn cynnig ystod eang o dros 30 o bynciau Lefel A, cyrsiau galwedigaethol a chysiau lefel prifysgol. Parth Dysgu Torfaen yw ein campws pwrpasol mwyaf newydd gyda labordai gwyddoniaeth o'r radd flaenaf, theatr berfformio a llawer mwy!

T





B

CAMPWS BRYNBUGA


Mae ein canolfan wledig ym Mrynbuga yn gartref i'n cyrsiau amaethyddol, chwaraeon, hamdden a gwasanaethau cyhoeddus. Mae yma ganolfan hyfforddi nyrsys milfeddygol, canolfan gofal anifeiliaid, ysgolion ceffylau dan do ac awyr agored, campfa gyflawn, caeau chwaraeon ac ystafelloedd dadansoddi perfformiad.



CAMPWS CROSSKEYS

C

Mae ein campws mwyaf yn cynnig dros 30 o bynciau Lefel A, cymwysterau gradd ac ystod amrywiol o gyrsiau galwedigaethol. Mae gan y campws gyfleusterau theatr trawiadol ar gyfer y celfyddydau perfformio, bwyty 'Morels' a salon gwallt a harddwch Blŵm, ill dau ar agor i'r cyhoedd.



CAMPYSAU

PARTH DYSGU BLAENAU GWENT

Ers agor yn 2012, mae Parth Dysgu blaengar Blaenau Gwent yn gartref i'r holl addysg Lefel A yn y sir ac mae hefyd yn cynnig amrywiaeth eang o gyrsiau galwedigaethol ac addysg uwch. Mae'r cyfleusterau'n cynnwys; canolfan seiber, theatr berfformio, salon gwallt a harddwch Blŵm, ystafelloedd peirianeg, gweithdai adeiladu a llawer mwy!

BG



CAMPWS DINAS CASNEWYDD

Yn cynnig ystod eang o gyrsiau galwedigaethol ac academiaidd, mae ein campws yn Ninas Casnewydd â chyfleusterau gwych, gan gynnwys; gweithdai peirianeg ac adeiladu gyda'r holl gyfarpar angenrheidiol, canolfan achredu technegwyr modurol (ATA), stiwdios celf, labordai gwyddoniaeth, salonau gwallt a harddwch Blŵm, yn ogystal ag ystafell dechnoleg ddigidol arloesol.

DC



EIN CANOLFAN HIVE NEWYDD

Bydd ein Canolfan Peirianeg Gwerth Uchel (HiVE) newydd yng Nglyn Ebwy yn agor ar hen safle ffatri Monwel yn y flwyddyn academiaidd 2024-25. Gydag angen cynyddol am wybodaeth a sgiliau STEM yn yr economi leol, uchelgais Coleg Gwent yw addysgu gweithlu'r dyfodol mewn cyfleuster pwrpasol lle bydd dysgwyr yn cael eu hamgylchynu gan arloesedd a thechnoleg sy'n adlewyrchu diwydiant.



» EICH CEFNOGI CHI



CYMORTH ARIANNOL

MAE'R CYLLID Y GALLECH FOD YN
GYMWYS I'W DDERBYN YN CYNNWYS:



EMA

Lwfans
Cynhaliaeth
Addysg



WGLG

Grant Dysgu
Llywodraeth Cymru



FCF

Cronfa
Ariannol Wrth
Gefn



DAF

Cronfa Cymorth
Dewisol yng
Nghymru



**GWOBR DATBLYGU
YMDDIRIEDOLAETH Y
TYWYSOG**

I ddysgu mwy neu am help a chyngor,
cysylltwch â'n gwasanaethau dysgwyr trwy
ffonio **01495 333 777** (croesawir galwadau
yn Gymraeg) neu ewch i'n gwefan.

» WWW.COLEGGWENT.AC.UK/CYLLID

TEITHIO A THRAFNIDIAETH

Ddim yn siŵr sut fyddwch chi'n cyrraedd
y coleg? Mae gennym gynllun tocyn bws
i fyfyrwyr sy'n caniatáu i chi deithio'n
rhatach i ac o'n campysau!

» WWW.COLEGGWENT.AC.UK/TRANSPORT

TIWTORIAID TUTORS



Bydd gennych eich tiwtor personol eich
hun a fydd yn adolygu eich cynnydd
academaidd, yn darparu cefnogaeth, yn
cynnig arweiniad ac anogaeth i sicrhau
eich bod yn cwblhau pob agwedd ar eich
cwrs yn llwyddiannus.

GWASANAETHAU CYMORTH I CHI




Yn Coleg Gwent, gallwch ymuno â chymuned ar-lein ar gyfer cymorth iechyd meddwl, gyda mynediad 24/7 i weithwyr proffesiynol hyfforddedig.

Bydd Togetherall yn eich helpu i reoli cyflyrau iechyd meddwl, cymryd rheolaeth, teimlo'n well a chynnal llesiant cadarnhaol tra byddwch yn y coleg.



Yn Coleg Gwent, rydym am i chi gael y gorau o'ch amser gyda ni. Dyna pam, ym mhob campws, mae gennym dîm cymorth pwrpasol i'ch helpu chi drwy'r coleg.

P'un a ydych chi eisiau help i ddod o hyd i gymorth ariannol, helpu i ddelio â straen a gorbryder, cyngor ar yrfaoedd neu helpu i reoli eich llwyth gwaith a pharatoi ar gyfer asesiadau neu arholiadau – gall tîm cymorth CG helpu.



CEFNOGAETH AR GYFER ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL (ADY)

Os oes gennych anhawster dysgu a/ neu anabledd, gallwn ddarparu llawer o gefnogaeth. Mae cymorth ADY yn cynnwys:

- » Cefnogaeth yn y dosbarth gan Gynorthwy-ydd Cymorth Ychwanegol
- » Sesiynau ychwanegol ar gyfer help gydag aseiniadau a gwaith cwrs
- » Help gan Weithiwr Cymorth Cyfathrebu
(ar gyfer dysgwyr sy'n fyddar neu â nam ar eu clyw)
- » Cefnogaeth dyslecsia
- » Mynediad i'r tîm Cymorth CG
- » Sesiynau ARROW i'ch helpu i wella eich sgiliau darllen a sillafu
- » Defnyddio meddalwedd hygyrchedd gan gynnwys hyfforddiant cychwynnol
- » Trefniadau mynediad i arholiadau

» WWW.COLEGGWENT.AC.UK/CYMORTH

Y TU ALLAN I'R YSTAFELL DDOSBARTH

Rydym yn cynnig amrywiaeth o weithgareddau a mentrau a fydd yn sicrhau eich bod yn gwneud y gorau o'ch amser yma. Mae'r gweithgareddau hyn yn darparu cyfleoedd gwyb i wneud ffrindiau newydd, dysgu sgiliau newydd, helpu eraill, a gwella eich iechyd a'ch lles.



TEITHIAU AC YMWELIADAU

Gallwch ymuno â ni ar ystod o deithiau ledled y DU, sy'n rhoi i fyfyrwyr y cyfle i gael hwyl wrth ddysgu am bynciau penodol ac ardaloedd o'r wlad. Defnyddir ein teithiau addysgol i gefnogi pob math o bynciau a helpu i ddod â dysgu'n fyw. Gallwch hefyd wneud cais i fod yn rhan o'n rhaglen dramor, gyda'r nod o roi cyfleoedd a phrofiadau i ddysgwyr ar gyfer teithio a gweithio dramor.



BAROD AM YRFA

Mae gennym dîm Uchelgais CG pwrpasol ar y campws i'ch cefnogi gydag arweiniad ac adnoddau i wella eich sgiliau cyflogadwyedd. Bydd ein tîm yn eich cefnogi drwy ddarparu sgiliau cyflogadwyedd, cyngor gyrfu, canllawiau cychwyn busnes, hyfforddiant ar gyfer cyfweiliadau, chwilio am gyflogaeth, help gyda'ch CV neu gynllun busnes a llawer mwy! Gall Uchelgais CG eich helpu i baratoi ar gyfer byd gwaith, a'r camau nesaf ar eich taith tuag at yrfa!



TOTUM

Arbedwch arian gyda TOTUM! Cofrestrwch am gerdyn TOTUM, y prif gerdyn disgownt i fyfyrwyr yn y DU, a chael mynediad i fargeinion unigryw i fyfyrwyr! Byddwch hefyd yn cael ID prawf oedran achrededig llawn yn rhad ac am ddim gyda'ch cerdyn.



UNDEB MYFYRWYR COLEG GWENT

Beth am ymuno ag Undeb y Myfyrwyr ar eich campws a sicrhau bod eich llais yn cael ei glywed? Gallwch bleidleisio dros swyddogion etholedig neu ddod yn un eich hun. Fel aelod o'r undeb, gallwch gymryd rhan mewn gweithgareddau codi arian, digwyddiadau, ymgyrchoedd a fforymau, a llawer mwy. Gallwch hefyd ddod yn gynrychiolydd dosbarth a gwneud gwahaniaeth trwy gynrychioli llais y dysgwr.

CYSTADLAETHAU SGILIAU

Cewch gyfle i gystadlu a chynrychioli eich coleg, gan arddangos eich sgiliau ar lwyfan cenedlaethol. O Gystadleuaeth Sgiliau Cymru i gystadleuaeth genedlaethol WorldSkills UK, gallwch gystadlu â myfyrwyr o golegau ledled y DU, gan ennill medalau mewn amrywiaeth o sectorau a rhoi hwb i'ch sgiliau cyflogadwydd.



» BYWYD MYFYRWYR

GRWPIAU LHDTC+ »

Yn Coleg Gwent, rydym yn deall pwysigrwydd creu cymuned amrywiol a chyfoethog i bawb yn y coleg. Mae gennym grŵp LHDTC+ ffyniannus ar bob campws sy'n sgwrsio ac yn cwrdd yn rheolaidd ar Microsoft Teams. Gallwch gwrdd â chyfoedion o'r un anian, siarad mewn man diogel a mynegi eich hun heb gael eich barnu mewn unrhyw fodd.

RHAGLEN DRAMOR »

Nod y rhaglen dramor yn Coleg Gwent, a ariennir drwy Erasmus+, yw darparu cyfleoedd a phrofiadau i ddysgwyr ar gyfer teithio a gweithio dramor. Mae'r rhaglen wedi'i chynllunio i ddangos i ddysgwyr bod y sgiliau y maent yn eu dysgu yn y coleg yn drosglwyddadwy unrhyw le yn y byd.



CLWB CYMRAEG »»

Rydym yn annog pob aelod o gymuned y coleg, siaradwyr rhugl neu beidio, i ddeall pwysigrwydd y Gymraeg a'i gwerth diwylliannol, addysgol ac economaidd i Gymru a thu hwnt. Mae'r Clwb Cymraeg yn ffordd wych o gymdeithasu a chymryd rhan mewn gweithgareddau cyfrwng Cymraeg ar draws holl safleoedd y coleg.



CELFYDDYDAU PERFFORMIO »»

Bob blwyddyn yn ein Parth Dysgu Torfaen, Parth Dysgu Blaenau Gwent a Campws Crosskeys, rydym yn cynnal perfformiad blynyddol. O Mary Poppins i Shrek y sioe gerdd - gall y Brifysgol gymryd rhan mewn sioe gerdd ar raddfa lawn, p'un a ydych chi ar flaen y llwyfan neu'r tu ôl i'r llenni!



YMUNO Â THÎM BUDDUGOL »»

Yn Coleg Gwent, gallwch ymuno â thîm chwaraeon buddugol - mae gennym Academi Rygbi, Pêl-droed a Phêl-rwyd! Wrth ymuno ag un o'n timau chwaraeon, byddwch yn ymuno â chymuned o bobl sy'n rhannu eich angerdd am chwaraeon.



EICH CANLLAW I GYMWYSTERAU

Ddim yn siŵr pa gymhwyster rydych chi'n chwilio amdano neu ar ba lefel i ddechrau?

Dyma ganllaw i'ch helpu i ddeall y lefelau sydd ar gael a'r math o yrfa y gallai arwain ato. Bydd sut rydych yn astudio a hyd eich cwrs yn dibynnu ar yr hyn a ddewiswch. Gallwch gael mwy o wybodaeth ar dudalennau'r cwrs unigol ar ein gwefan.

LEFEL	CYMHWYSTER		
	Dysgu Galwedigaethol	Dysgu Academaidd	Dysgu'n Seiliedig ar Waith
7	Gradd Meistr / Doethuriaeth		NVQ 5
6	Gradd Anrhydedd		Prentisiaeth Uwch NVQ 4
5	Gradd Sylfaen HND	Diploma mewn Addysg Uwch	
4	HNC	Tystysgrif mewn Addysg Uwch	
3	Diploma Lefel 3, Diploma neu Dystysgrif Estynedig	Safon Uwch / Safon Uwch Gyfrannol (AS)	Prentisiaeth Uwch
2	Diploma Lefel 2, Tystysgrif Estynedig neu Dystysgrif	TGAU A* - Gradd C	Prentisiaeth NVQ 2
1	Tystysgrif Lefel 1 neu Ddiploma	TGAU Graddau D-G	Hyfforddeiaeth NVQ 1

ESBONIAD O'R DERMINOLEG



Dysgu sy'n gysylltiedig â Galwedigaeth

Mae cyrsiau dysgu sy'n gysylltiedig â galwedigaeth yn ymarferol yn bennaf gyda rhywfaint o astudiaeth theori hefyd.



Dysgu Academaidd

Mae dysgu academaidd yn seiliedig yn bennaf neu'n gyfan gwbl ar astudiaeth ar sail theori, mae'r rhan fwyaf o'r cymwysterau Safon Uwch yn cael eu hystyried fel cymwysterau sy'n seiliedig ar ddysgu academaidd.



Dysgu'n seiliedig ar waith

Gyda dysgu'n seiliedig ar waith byddwch fel arfer yn treulio 80% o'r amser mewn lleoliad gwaith a 20% yn y coleg.



» PWYNTIAU UCAS »

Yn ogystal â Lefel A, mae'r rhan fwyaf o gyrsiau galwedigaethol Lefel 3 yn denu pwyntiau UCAS.

Mae pwyntiau UCAS yn trosi eich cymwysterau a graddau i werth rhifiadol, gan fod rhan fwyaf o'r prifysgolion yn cyfeirio at bwyntiau UCAS fel gofyniad mynediad. Mae'r nifer yn dibynnu ar y cwrs rydych chi'n ei astudio, er enghraifft; os byddwch yn astudio Diploma Lefel 3 gallwch ennill 90 credyd ar ôl ei gwblhau'n llwyddiannus, yna gallwch symud ymlaen i Ddiploma Estynedig Lefel 3, a fydd wedyn yn rhoi 180 credyd i chi.

Gallwch ddarganfod mwy yn:

» WWW.UCAS.COM/TARIFF

PETHAU I'W HYSTYRIED WRTH DDEWIS » EICH CWRS

- » Rydych chi'n fwy tebygol o basio'ch cwrs os byddwch chi'n dewis pwnc rydych chi'n ei fwynhau!
- » Bydd dewis rhywbeth rydych chi'n dda yn ei wneud yn golygu eich bod yn fwy tebygol o gael graddau da pan fyddwch chi'n cwblhau eich cwrs.
- » Meddyliwch am yr hyn yr hoffech ei wneud ar ôl y coleg. Prifysgol? Cael swydd? Hyfforddiant pellach? A fydd eich cwrs yn eich helpu i gyflawni hynny?

CYMWYSTERAU >>> >>> SGILIAU

Eich sgiliau, eich dyfodol!

Yn Coleg Gwent, os ydych yn ddysgwr llawn amser, byddwch yn elwa o raglen gyfoethogi i'ch cefnogi i ddatblygu sgiliau cyflogadwyedd i'ch helpu ar hyd y llwybr y byddwch yn ei ddewis. Yn dibynnu ar yr hyn rydych chi'n ei astudio, byddwch naill ai'n astudio'r Fagloraeth Sgiliau Uwch neu'r cymhwyster Sgiliau ar gyfer Cyflogaeth.

BAGLORIAETH SGILIAU UWCH

Mae Bagloraeth Sgiliau Uwch Cymru yn disodli Bagloraeth Cymru. Bydd pob dysgwr Safon Uwch yng Ngholeg Gwent yn elwa o'r Fagloraeth Sgiliau Uwch newydd ochr yn ochr â'u hastudiaethau.

Mae'r Fagloraeth Sgiliau Uwch nid yn unig yn rhoi sgiliau hanfodol i chi i'ch helpu ar hyd y llwybr y byddwch yn ei ddewis, ond mae hefyd yn rhoi cymhwyster ychwanegol i chi - sy'n cyfateb i Safon Uwch. Bydd y cymhwyster hefyd yn rhoi pwyntiau UCAS ychwanegol i chi, felly bydd yn ddefnyddiol os ydych chi'n ystyried mynd i'r brifysgol!

SGILIAU AR GYFER CYFLOGAETH

Os ydych yn astudio cwrs galwedigaethol lefel 1, 2 neu 3, byddwch yn elwa o gymhwyster a arweinir gan gyflogadwyedd yn ogystal â'r cwrs yr ydych yn ei ddewis. Mae'r cymhwyster newydd sbon, y cyntaf o'i fath yng Nghymru, wedi'i ddatblygu a'i arloesi gan arbenigwyr pwnc a chyflogwyr. Pwrpas y cymhwyster yw rhoi cymhwyster ychwanegol i chi ochr yn ochr â'r cwrs o'ch dewis, i'ch helpu i ennill y sgiliau a'r wybodaeth y mae cyflogwyr yn chwilio amdanynt pan fyddwch yn gadael y coleg. Mae'r cynnwys yn cael ei arwain yn ddigidol ac mae wedi'i ddatblygu gyda phob pwnc mewn golwg, fel y gallwch ddatblygu sgiliau perthnasol a hanfodol yn seiliedig ar y maes astudio yr ydych yn ei ddewis.




MATHEMATEG A » SAESNEG

Rydym yn canolbwyntio ar ddysgu'r sgiliau a fydd o fudd i chi o ran gwneud cais am brifysgol, cael swydd neu symud ymlaen i astudio ymhellach.

Am y rheswm hwn, mae pob cwrs a gynigir gennym yn cynnwys datblygu Saesneg a Mathemateg. Os nad oes gennych TGAU gradd C yn y naill bwnc neu'r llall pan fyddwch yn ymuno â ni, byddwn yn eich helpu i gyrraedd lle mae angen i chi fod ac yn darparu dosbarthiadau ar wahân i'ch helpu i weithio tuag at y lefel hon.

Darganfyddwch fwy yma:

» WWW.COLEGGWENT.AC.UK/ME



» DYSGU YN GYMRAEG AC YN DDWYIEITHOG

Os ydych am astudio yn Gymraeg neu'n ddwyieithog, gallwn roi rhywfaint o gymorth ychwanegol i chi i'ch helpu i wneud hynny.

Rydym yn cynnig amrywiaeth eang o gymorth Cymraeg a dwyieithog gan gynnwys;

y gallu i gyflwyno rhai modiwlau yn Gymraeg, y cyfle i astudio'r Gymraeg ar unrhyw lefel, cymorth astudio a thiwtorialau dwyieithog, lleoliadau gwaith cyfrwng Cymraeg a llawer mwy!

» WWW.COLEGGWENT.AC.UK/WELSHLEARNERS

PRENTISIAETHAU

Rydym yn gwybod nad yw dysgu llawn amser at ddant pawb.

Os byddai'n well gennych fynd yn syth i gyflogaeth ond eich bod am ennill cymwysterau ochr yn ochr â'ch sgiliau a'ch profiad newydd, yna gallai prentisiaeth fod y peth i chi.

MAE PRENTISIAETHAU'N DARPARU:



SWYDD GO IAWN

Rhowch eich sgiliau newydd ar waith yn eich gweithle a dewch i'r coleg, fel arfer am un diwrnod yr wythnos.

CYMHWYSTER GO IAWN



Cymhwyster cenedlaethol a gydnabyddir gan gyflogwyr ledled y byd. Gwell sgiliau, gwell cyfleoedd!



SIEC CYFLOG GO IAWN

Nid yn unig ydych chi'n cael profiad o ddiwydiant, sgiliau a chymwysterau yn y gweithle, rydych chi hefyd yn cael eich talu!

IAWN DYFODOL GO



Mae prentisiaethau'n eich darparu gyda'r sgiliau y mae cyflogwyr eu heisiau, a gall hyn agor drysau yn y dyfodol.

GALLWCH WNEUD PRENTISIAETHAU MEWN:

- » Gosod brics
- » Gosod trydanol
- » Cerbydau Modur – Cerbydau ysgafn a thrwm
- » Gwaith coed
- » Iechyd a Chymdeithasol Gofal
- » Cerbydau Modur – Trwsio Corff a Phaent y Cerbyd
- » Peirianeg drydanol
- » Peirianeg Fecanyddol
- » Adeiladu Plymio Weldio

A YDW I'N GYMWYS?

I wneud prentisiaeth, mae angen i chi fod:

- ✓ Yn gyflogedig yn y sector perthnasol, bod â chontract cyflogaeth ac yn cael eich talu yn unol â'r isafswm cyflog cenedlaethol
- ✗ Ddim mewn addysg llawn amser
- ✓ Wedi ymrwymo i gyflawni'r cymwysterau sy'n sail i'r fframwaith prentisiaethau
- ✓ Yn byw ac/neu'n gyflogedig yng Nghymru

“

Mae'n 100% well i gen fy mhrentisiaeth na mynychu'r coleg llawn amser. Rydych chi'n cael cymaint mwy o brofiad ymarferol ac rwy'n ei chael hi'n llai dwys nag astudio llawn amser. Roedd gwneud prentisiaeth hefyd yn apelio gan ei fod yn golygu y gallwn ennill arian wrth astudio am fy nghymwysterau.

» JADE PARRY
HNC PEIRIANEG
DRYDANOL

» DYMA JADE

LEFEL A

YN COLEG GWENT

Yn Coleg Gwent, rydym yn cynnig rhaglenni astudio unigryw sy'n canolbwyntio'n llwyr ar ddarparu'r sgiliau, y profiadau a'r cymwysterau diweddaraf i chi er mwyn i chi allu dilyn gyrfa neu radd prifysgol yn eich llwybr dewisol.

PAM ASTUDIO LEFEL A YN COLEG GWENT?



DIGON O DDEWIS

Mae gennym dros 30 o bynciau Lefel A i ddewis ohonynt - gan roi digon o ddewis i'ch symud chi gam yn nes at eich nodau yn y dyfodol.

Y CYFUNIAD PERFFAITH



Bydd angen i chi ddewis o leiaf 3 pwnc Lefel A, ond gallwch gymryd 4!

Wrth ddewis eich cyfuniadau Lefel A, mae'n bwysig eich bod yn dewis y pynciau cywir ar gyfer yr yrfa neu'r maes astudio yr ydych am ei ddilyn. Gallwn eich helpu i ddewis y cyfuniad perffaith ar gyfer eich llwybr yn y dyfodol, cysylltwch â'n tîm recriwtio myfyrwyr cyfeillgar!



Y GARREG GAMU BERFFAITH I'R BRIFYSGOL

Oeddech chi'n gwybod fod dros 80% o'n dysgwyr Lefel A yn symud ymlaen i Addysg Uwch?

Mae gennym dîm ymroddedig o Swyddogion Cynnydd a all ddarparu cymorth a dealltwriaeth arbenigol i'ch helpu gyda'ch cais prifysgol.



» ENNILL PWYNTIAU UCAS YCHWANEGOL

Ochr yn ochr â'ch pynciau Lefel A, byddwch hefyd yn elwa o gymhwyster ychwanegol - y Fagloriaeth Sgiliau Uwch.

Mae'r Fagloriaeth Sgiliau Uwch, sef y Fagloriaeth Gymraeg gynt, nid yn unig yn rhoi sgiliau hanfodol i chi i'ch helpu ar hyd y llwybr yr ydych yn ei ddewis, ond hefyd yn rhoi cymhwyster ychwanegol i chi - sy'n cyfateb i Lefel A. Bydd y cymhwyster hefyd yn rhoi pwyntiau UCAS ychwanegol i chi, felly bydd yn ddefnyddiol os ydych chi'n ystyried mynd i'r brifysgol!

» RHWYDWAITH SEREN

Mae Rhwydwaith Seren, a ariennir gan Lywodraeth Cymru, yn ganolbwynt sy'n rhoi sylfaen ragorol i fyfyrwyr a gafodd raddau A* yn eu harholiadau TGAU i wneud cais i brifysgolion cystadleuol a dethol Grŵp Russell (grŵp o brifysgolion gyda ffocws ar y cyd ar ymchwil ac enw da am gyflawniad academiaidd).

Rydym yn cynnal gweithgareddau a digwyddiadau sy'n anelu at fagu hyder a gwydnwch, yn ogystal ag ehangu gwybodaeth am bynciau, gan eich helpu i ddatblygu'r rhinweddau y mae prifysgolion Grŵp Russell yn eu gwerthfawrogi ac yn chwilio amdanynt yn eu hymgeiswyr.



CYFRADDAU

» LLWYDDIANT TRAWIADOL



Rydym yn un o'r colegau sy'n perfformio orau yng Nghymru

1 mewn 4

Cafodd 1 o bob 4 o'n dysgwyr y graddau A*/A uchaf

97.4%

Cyflawnodd ein myfyrwyr Lefel A gyfradd lwyddiant aruthrol o 97.4% yn 2022/23

»» LEFEL A

»» DYMA ALICE



“

Roedd gen i ddiddordeb erioed mewn gyrfa yn y gyfraith ac fe gynigiodd Coleg Gwent y pwnc ar lefel safon uwch yn ogystal â phynciau cysylltiedig yr oeddwn eu hangen. Roeddwn i'n gwybod fy mod am symud ymlaen i'r brifysgol a Lefel A yn Coleg Gwent oedd y dewis gorau i mi. Fe wnaeth Coleg Gwent hefyd fy helpu i sicrhau lleoedd mewn ysgolion haf ym Mhrifysgol Rhydychen a Chaergrawnt.

»» ALICE

LEFEL A; LLENYDDIAETH
SAESNEG, HANES A'R GYFRAITH

”

I GOT INTO OXFORD!



BETH ALLWCH CHI EI ASTUDIO?

Mae gennym gyfanswm o

34 o bynciau Lefel A

i ddewis ohonynt ar draws ein campysau yng Nglyn Ebwy, Cwmbrân a Crosskeys, felly gallwch ddewis y cwrs cywir yn y lleoliad perffaith i chi.

BETH NESAF? >>

Mae Lefel A yn agor y drws i lawer o opsiynau, gallwch astudio cwrs lefel prifysgol yn Coleg Gwent, neu gallwch symud ymlaen i astudio ar lefel uwch mewn prifysgol arall. Efallai y byddwch hefyd am ddefnyddio'ch cymwysterau i gael swydd neu wneud prentisiaeth bellach neu brentisiaeth uwch.

EIN CYRSIAU

	Campws
Gwyddoniaeth Gymhwysol	BG T
Celf a Dylunio	BG C T
Bioleg	BG C T
Astudiaethau Busnes	BG C T
Cemeg	BG C T
Cyfrifiadureg	BG C T
Troseddeg	BG C T
Technoleg Ddigidol	BG C T
Drama ac Astudiaethau'r Theatr	BG C T
Economeg	BG T
Iaith a Llenyddiaeth Saesneg	BG C T
Llenyddiaeth Saesneg	BG C T
Astudiaethau Ffilm	C T
Ffrangeg	C
Mathemateg Bellach	BG C T
Daearyddiaeth	BG C T
Daeareg	T
Y Llywodraeth a Gwleidyddiaeth	BG C T
Dylunio Graffeg	BG C T
Iechyd a Gofal Cymdeithasol	BG
Hanes	BG C T
Y Gyfraith	BG C T
Mathemateg	BG C T
Astudiaethau'r Cyfryngau	BG C T
Cerddoriaeth	C
Athroniaeth	T
Ffotograffiaeth	BG C T
Addysg Gorfforol	BG C T
Ffiseg	BG C T
Seicoleg	BG C T
Astudiaethau Crefyddol	BG C T
Cymdeithaseg	BG C T
Sbaeneg	C
Cymraeg Ail iaith	BG C

Nodyn: Gall pob cwrs newid a'u canslo os tybir nad yw'n bosib eu cynnal.

CYFRIFEG A BUSNES

Mae'r byd busnes yn gyffrous ac yn ddeinamig. P'un a ydych wedi gosod eich golygon ar weithio i gorfforaeth fawr, neu hyd yn oed ddechrau eich pen eich hun; gallech gychwyn ar eich taith eich hun, gan ddechrau yn Coleg Gwent!


DYMA JACOB

“

Byddwn yn argymhell Coleg Gwent gan fod ganddynt ddigon o gyfleoedd, cyrsiau ac amrywiad. Rwy'n astudio busnes ac yn mynd ymlaen i wneud cwrs rheoli busnes a marchnata ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd, a hoffwn fynd i swydd yn y maes marchnata yn y pen draw. Mae mwy o opsiynau yma na'r chweched dosbarth ac mae mwy o ryddid yn y coleg. Mae pawb yn gyfeillgar ac yn ddymunol, maen nhw'n gwneud pethau mor hwyliog â phosibl.

”

JACOB LEIGH HOOPER
DIPLOMA ESTYNNEDIG MEWN
BUSNES



EIN CYRSIAU

	Lefel	Campws
Cyfrifeg	2	DC
Cyfrifeg Uwch	3	DC
Cadw Llyfrau	3	DC
Busnes	2	C T
Busnes	3	BG C T
Astudiaethau Galwedigaethol - Busnes, Gwasanaeth Cwsmer a TGCh	1	T
Addysg Gysylltiedig â Gwaith	2	T

Nodyn: Gall pob cwrs newid a'u canslo os tybir nad yw'n bosib eu cynnal.

OEDDECH CHI'N GWYBOD?

Y cyflog cyfartalog ar gyfer gweithwyr proffesiynol rheoli prosiectau mewn busnes a gwasanaethau ariannol yw

£48,780 y flwyddyn

O*NET, Pathways 2023

BETH NESAF? >>>

Gallwch aros yn agosach at eich cartref ac astudio cwrs prifysgol yn Coleg Gwent neu roi'r hyn rydych wedi'i ddysgu ar waith trwy fynd yn syth i mewn i swydd. Fel arall, beth am ddatblygu eich sgiliau mewn hyfforddeiaeth neu brentisiaeth? Gall darpar entrepreneuriaid hyd yn oed ddechrau eu busnes eu hunain!

GYRFAOEDD POSIB >>>



Cyfrifydd Rheoli



Ceidwad Llyfrau



Rheolwr Datblygu Busnes



Rheolwr Marchnata



Dadansoddwr Busnes / Ariannol

ASTUDIAETHAU TIR A » GOFAL ANIFEILIAID

P'un a ydych chi wrth eich bodd â cheffylau, yn gyw ffermwr neu'n awyddus i weithio mewn practis milfeddygol - bydd ein cyrsiau gofal anifeiliaid ac astudiaethau tir yn rhoi'r profiad a'r cymwysterau sydd eu hangen arnoch i'ch paratoi ar gyfer llwyddiant.

» **DYMA KIAHREN**

“ Fe wnes i ddod i ddigwyddiad agored ac yn fy marn i, roedd y cyfleusterau'n rhagorol ac yn well nag unrhyw beth arall a welais erioed. Fy nodau tymor hir a'm cynllun gyrfa ar ôl coleg yw gweithio fel gweithiwr fferm cyffredinol a gweithio i fyny'n raddol a bod yn berchen ar fy fferm fy hun yn y pen draw.

» **KIAHREN PETTICAN**
ASTUDIAETHAU TIR A
GOFAL ANIFEILIAID



BETH NESAF? >>>

Gallwch symud ymlaen i un o'n cyrsiau lefel prifysgol yma yn Coleg Gwent, neu gallwch fynd ymlaen i astudio mewn prifysgol arall yn y DU. Fel arall, gallech fynd yn syth i mewn i swydd; yn ôl Gyrfa Cymru, mae 64% o ffermwyr dros 55 oed, felly mae'r galw am recriwtiaid newydd yn uchel.

OEDDECH CHI'N GWYBOD?

Gweithwyr gofal anifeiliaid, milfeddygon a nyrsys milfeddygol

**YW'R TAIR SWYDD
SY'N TYFU GYFLYMAF
yn y sector ffermio.**

Gyrfa Cymru 2022

GYRFAOEDD POSIBL >>>



**Gweithiwr Gofal
Anifeiliaid**



Nyrs Milfeddygol



Contractwr Amaethyddol



Hyfforddwr Ceffylau



Rheolwr Iard

EIN CYRSIAU

	Lefel	Campws
Gofal Anifeiliaid (Llwybrau Anifeiliaid Fferm / Anifeiliaid Bach / Tacloso)	2	B
Rheolaeth Anifeiliaid	2	B
Gofal Ceffylau	1	B
Gofal Ceffylau	2	B
Rheolaeth Ceffylau	3	B
Astudiaethau'r Tir - Gofal Anifeiliaid	1	B
Nyrsio Milfeddygol	3	B

Nodyn: Gall pob cwrs newid a'u canslo os tybir nad yw'n bosib eu cynnal.

CELF A DYLUNIO, >> Y CYFRYNGAU A FFOTOGRAFFIAETH

Gadewch i'ch dawn artistig ddisgleirio; ein stiwdios eang yw'r lle perffaith i fynegi eich hun, arbrofi gydag ystod o dechnegau a dewis eich arbenigedd. Bydd ein cyrsiau yn eich helpu i ennill sgiliau a gwybodaeth werthfawr. Bob blwyddyn, rydym yn cynnal arddangosfeydd myfyrwyr i arddangos eich gwaith gorau a chael sylw cyhoeddus, gan roi'r profiad y bydd ei angen arnoch ar gyfer prifysgol neu fyd gwaith.

GYRFAOEDD POSIBL



Dylunydd Graffig



Ffotograffydd Ffasiwn



Cynhyrchydd Ffilm / Teledu



Animeiddiwr



Artist Celfyddyd Gain

OEDDECH CHI'N GWYBOD?

Mae Llywodraeth y DU yn bwriadu buddsoddi

£77M

yn y sector creadigol i gefnogi miliwn yn fwy o swyddi erbyn 2030.

[gov.co.uk](https://www.gov.co.uk), 2023

BETH NESAF? >>

Gallwch symud ymlaen i gwrs lefel prifysgol mewn astudiaethau creadigol yn Coleg Gwent neu gallwch hefyd fynd ymlaen i astudio mewn prifysgolion ledled y DU naill ai mewn cydestun creadigol cyffredinol neu arbenigo mewn meysydd megis ffasiwn, ffotograffiaeth, dylunio graffig, celfyddyd gain a mwy. Mae eraill yn rhoi'r hyn maen nhw wedi'i ddysgu ar waith mewn swyddi fel dylunio graffeg / gwefannau, dylunio ffasiwn ac animeiddio.

EIN CYRSIAU

	Lefel	Campws
Celf a Dylunio	2	C DC T
Celf a Dylunio	3	BG C DC T
Celf a Dylunio (Celf a Dylunio, Ffotograffiaeth, Ffasiwn a Thecstilau)	3	C
Celf a Dylunio (Llwybr Ffotograffiaeth)	3	C
Dylunio a Thechnoleg Ddigidol	3	DC
E-chwaraeon (Cynhyrchu a Thechnoleg y Cyfryngau Creadigol)	3	BG
Astudiaethau Sylfaenol (Celf a Dylunio)	3	DC
Dylunio Gemau	3	C
Y Cyfryngau	2	C DC T
Y Cyfryngau	3	C T
Sgiliau ar gyfer Gweithio yn y Diwydiannau Creadigol a Dylunio	2	BG
Astudiaethau Galwedigaethol - Celf a'r Cyfryngau Creadigol	1	C DC T

Nodyn: Gall pob cwrs newid a'u canslo os tybir nad yw'n bosib eu cynnal.

“

Byddwn yn argymhell Coleg Gwent gan eich bod yn cael darpariaeth dysgu un i un da ac mae'r tiwtoriaid yn neis iawn. Byddwn hefyd yn argymhell Celf a Dylunio oherwydd eich bod chi'n cael gwneud cymysgedd gwych o bethau bob dydd, sy'n caniatáu i chi fod yn greadigol iawn mewn llawer o wahanol ffyrdd. Roeddwn i'n teimlo bod y llwybr hwn yn gweddu'n well i mi na'r chweched dosbarth gan ei fod yn gwrs mor greadigol.

» Koby Davies
Celf a Dylunio

”

» DYMA Koby

ARLWYO A >>> >>> LLETYGARWCH

Gyda gweithlu o dair miliwn a thwf parhaus, mae'r sector yn cyfrannu'n sylweddol at economi'r DU a gall gynnig ystod enfawr o gyfleoedd i chi.

OEDDECH CHI'N GWYBOD?

Gall rheolwr gwesty profiadol ennill hyd at

£60,000 y flwyddyn

O*NET Pathways 2023

BETH NESAF? >>>

Fel un o'r sectorau mwyaf yn y DU, bydd gennych ddigon o opsiynau gyrfa i ddewis ohonynt, p'un a ydych yn bwriadu dechrau mewn rôl iau neu symud ymlaen i swydd reoli. Gallech hefyd symud ymlaen i gwrs lefel uwch o fewn yr un sector.

EIN CYRSIAU

	Lefel	Campws
Lletygarwch ac Arlwyio	Mynediad 3	C
NVQ mewn Gwasanaethau Lletygarwch	1	C
Teisennau a Melysion	3	C
Coginio Proffesiynol	1	C
Coginio Proffesiynol	2	C
Coginio Proffesiynol (Uwch)	3	C

Nodyn: Gall pob cwrs newid a'u canslo os tybir nad yw'n bosib eu cynnal.

GYRFAOEDD POSIBL



ACADEMI FFORWM COGYDDION



Rheolwr Gwesty



Sommelier



Cogydd



Staff Gweini



Chaperone Digwyddiadau

Coleg Gwent oedd y coleg cyntaf i gynnig Academi Fforwm Cogyddion yng Nghymru. Gan weithio gyda'r Academi, gallech gael y cyfle i gymryd rhan mewn digwyddiadau yng Ngholeg Dinas Bryste, Y Marriott Caerdydd a Bar a Bwyty Park House. Bydd hyn yn adeiladu eich 'repertoire' profiad gwaith ac yn rhoi cyfle i chi arddangos eich sgiliau i gyflogwyr lleol.

“

Byddwn yn argymhell Coleg Gwent oherwydd eich bod yn ennill profiad yn y diwydiant, byddwch yn dysgu llawer ac yn gwneud llawer o ffrindiau. Mae'r athrawon yn dda iawn. Mae ganddynt fwyty proffesiynol sy'n agored i'r cyhoedd fel y gallwch ddysgu sut i godi cyflymder a'r gallu i goginio yn y gegin, yn ogystal â dysgu sut i weithio fel tîm.

”

» CLARK PARRY
COGINIO PROFFESIYNOL



» DYMA CLARK

» CYFRIFIADURA A THECHNOLEG DDIGIDOL ⤴

Mae'r byd digidol yn datblygu'n gyflym, ac mae angen timau blaengar ar gyflogwyr i ddatblygu meddalwedd a rheoli systemau a rhwydweithiau. Mae technoleg wrth wraidd popeth a wnawn, felly fe mae ystod eang o yrfaedd ar gael yn y sector hwn.

“ Rwyf wrth fy modd â phopeth am y cwrs, yr athrawon, a'r unedau rydym ni'n eu hastudio, yn enwedig graffeg ddigidol ac animeiddio. Dyma'r coleg gorau oherwydd mae llawer o wahanol gyrsiau, mae myfyrwyr yn ei fwynhau ac yn llwyddo. Os gwnaethoch fethu o'r blaen, gallwch wella'ch hun a chyflawni eich nod yn Coleg Gwent!

» MOHAMMED MERAM
CYFRIFIADUREG

”

» DYMA
MOHAMMED



EIN CYRSIAU

	Lefel	Campws
Cyfrifiadura	3	DC
Cyfrifiadura a Technolegau Digidol	3	BG
Cyfrifiadura Coleg Seiber	3	C
Technoleg Gwybodaeth a Chreadigol	3	BG T
Technoleg Gwybodaeth	2	BG C DC T
Technoleg Gwybodaeth a Seiberddiogelwch	2	BG
Defnyddwyr TG/ Systemau ac Egwyddorion TG	2	DC
Astudiaethau Galwedigaethol - TGCh	1	BG
Astudiaethau Galwedigaethol - TGCh a Busnes	1	C DC

Nodyn: Gall pob cwrs newid a'u canslo os tybir nad yw'n bosib eu cynnal.

BETH NESAF? >>>

Gallwch symud ymlaen i astudio ystod o gyrsgau lefel prifysgol mewn cyfrifiadura a thechnoleg ddigidol yma yn Coleg Gwent. Mae rhai o'n dysgwyr cyfrifiadura a TG yn mynd ymlaen i astudio mewn prifysgolion ledled y DU naill ai mewn cyd-destun technoleg cyffredinol neu'n arbenigo mewn meysydd fel seiberddiogelwch, rhaglennu neu bensaerniaeth rhwydwaith. Fel arall, gallwch roi eich sgiliau ar waith yn y gweithle gyda swydd fel dadansoddwr cymorth TG, datblygwr meddalwedd, technegydd cymorth TG, peiriannydd rhwydwaith a llawer mwy.

OEDDECH CHI'N GWYBOD?

Gall cyfarwyddwyr TG profiadol ennill hyd at

£140,000 y flwyddyn

O*NET Pathways 2023

GYRFAOEDD POSIBL >>>



Cyfarwyddwr TG



Datblygwr Gemau Cyfrifiadurol



Datblygwr Meddalwedd



Peiriannydd Rhwydwaith



Datblygwr Gwefannau

CYBER COLLEGE CYMRU

Rydym yn rhan o Cyber College Cymru, menter Llywodraeth Cymru sy'n cynnig cyfle i chi ddechrau ar gwrs arloesol o astudio digidol.

Mae'r Diploma Estynedig BTEC Cenedlaethol mewn Cyfrifiadureg yn berffaith ar gyfer ymgeiswyr sydd:

- » Â diddordeb mewn cwrs astudio sy'n cyfuno gwybodaeth gyfrifiadurol a sgiliau ymarferol Yn frwdfrydig am ofynion technolegol diwydiant sy'n newid yn barhaus
- » Yn cael eu gyrru gan anghenion y diwydiant ac angen cyflogwyr am weithwyr sy'n barod ar gyfer y gweithle
- » Eisiau cyfuno gwybodaeth dechnegol a busnes
- » Yn dymuno dilyn gyrfa neu barhau ag astudiaethau pellach mewn Seiber neu ddiwydiannau eraill sy'n gysylltiedig â'r maes digidol

Gallwch ennill cymhwyster a gydnabyddir yn genedlaethol sy'n cyfateb i dair Safon Uwch a gyflwynir mewn partneriaeth â chyflogwyr blaenllaw y diwydiant fel Admiral, Fujitsu a Thales.

“

Mae gan y cyfleusterau yn Coleg Gwent bopeth sydd ei angen arnom i ddysgu am seiber a datblygu sgiliau ar gyfer y dyfodol. Nid wyf yn siŵr beth rydw i eisiau ei wneud eto fel gyrfa, ond Seiber yw'r dyfodol a bydd y rhan fwyaf o swyddi'n cynnwys cyfrifiadura, felly mae'n faes gwych i fynd iddo os nad ydych chi'n gwybod beth rydych chi am ei wneud fel swydd.

» MIA BIRD
CYBER COLLEGE

”

Admiral FUJITSU Dŷr Cymru Welsh Water THALES

EIN CYRSIAU

	Hyd	Lefel	Campws
Cyfrifiaduro Coleg Seibr	1 flwyddyn	3	BG

Nodyn: Gall pob cwrs newid a'u canslo os tybir nad yw'n bosib eu cynnal.



SAESNEG AR GYFER SIARADWYR IEITHOEDD ERAILL (ESOL)

Os nad Saesneg yw eich iaith gyntaf, bydd ein cyrsiau yn eich helpu i wella eich sgiliau Saesneg.

Gall ein cyrsiau ESOL eich helpu i:

- » Gwellu eich Saesneg - siarad, gwranddo, darllen, ysgrifennu, gramadeg a geirfa
- » Dysgu sut i ysgrifennu e-byst, llythyrau, CVs ffurfiol ac anffurfiol a cheisiadau am swydd
- » Dysgu am y sgiliau gwaith sydd eu hangen arnoch i gael swydd neu ddyrchafiad yn y gwaith
- » Dysgu am fathemateg gan gynnwys mesur, cyllidebu a sut i ddarllen amserlenni

“

Mae'r athrawon yn Coleg Gwent yn gymwynasgar iawn, nid yn unig ar y cwrs ond hefyd pryd bynnag y bydd angen help arnaf ac angen gofyn cwestiynau. Cysylltu â siaradwyr brodorol yw'r peth gorau am y cwrs hwn.

”

» ANDRZEJ NOWAK
ESOL



EIN CYRSIAU

	Lefel	Campws
ESOL Sgiliau Bywyd	Lefel Agored 1, 2 a 3	DC
ESOL Sgiliau Bywyd	Lefel 1 a 2	DC

Nodyn: Gall pob cwrs newid a'u canslo os tybir nad yw'n bosib eu cynnal.



Os hoffech gofrestru ar un o'n cyrsiau, rhaid i chi ymweld â'r Ganolfan Reach+ yn y Llyfrgell Ganolog, Casnewydd. Bydd y tîm yn asesu pob unigolyn ac yn eu cyfeirio at y cwrs a'r gefnogaeth gywir. Gellir gwneud apwyntiadau drwy ffonio'r Ganolfan ar 01633 414917 neu drwy alw heibio'r llyfrgell. Mae hyn yn rhan o ReStart:Prosiect Integreiddio Ffoduriaid.



Caiff y prosiect AilGychwyn: Integreiddio Ffoduriaid ei ariannu'n rhannol drwy Gronfa Lloches, Ymfudo ac Integreiddio yr Undeb Ewropeaidd. Gwneud rheoli llif ymfudo'n fwy effeithiol ar draws yr Undeb Ewropeaidd.

The ReStart: Refugee Integration project is part-funded through the European Union Asylum Migration Integration Fund. Making management of migration flows more efficient across the European Union.

ADEILADU

Gall gyrfa yn y maes adeiladu fod yn amrywiol a chyda'r sector yn cael ei daro gan brinder sgiliau, mae galw bob amser am weithwyr adeiladu medrus. Mae gennym gysylltiadau gwych â chyflogwyr, sy'n golygu y byddwch yn cael yr hyfforddiant ymarferol sydd ei angen arnoch, ynghyd â'r cyfle i rwydweithio.

EIN CYRSIAU

	Lefel	Campws
Peirianeg Sifil	3	DC
Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig	3	DC
Sgiliau Adeiladu (Amlsgiliau)	1	BG DC
Sgiliau Adeiladu (Amlsgiliau – Gweithrediadau Cynnal a Chadw)	2	DC
Cwrs Sylfaen mewn Gosod Brics	2	BG DC
Cwrs Sylfaen mewn Gwaith Saer ac Asiedydd	2	BG DC
Cwrs Sylfaen mewn Gosodiadau Trydanol	2	BG DC
Cwrs Sylfaen mewn Peintio ac Addurno	2	BG DC
Cwrs Sylfaen mewn Plymwaith	2	BG DC
Dilyniant mewn Adeiladwaith - Gosod Brics	2	BG DC
Dilyniant mewn Adeiladwaith - Gwaith Coed ar Safle	2	BG DC
Dilyniant mewn Adeiladwaith - Gosodiadau Trydanol	2	BG DC
Dilyniant mewn Adeiladwaith – Peintio ac Addurno	2	BG DC
Dilyniant mewn Adeiladwaith - Plymwaith a Gwresogi	2	BG DC

Nodyn: Gall pob cwrs newid a'u canslo os tybir nad yw'n bosib eu cynnal.

OEDDECH CHI'N GWYBOD?

Gall rheolwyr adeiladu profiadol ennill hyd at

£60,000
y flwyddyn

O*NET Pathways 2023

BETH NESAF?

Mae llawer o'n dysgwyr adeiladu yn mynd yn syth i gyflogaeth neu brentisiaeth mewn crefft. Efallai yr hoffech astudio HNC/ HND mewn Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig neu Beirianeg Sifil yn Coleg Gwent, neu gwrs sy'n gysylltiedig ag adeiladu mewn prifysgol arall.

“

Fy hoff ran o'r cwrs yw'r gwaith ymarferol a dysgu sut i ddefnyddio llifiau llaw ac offer pŵer. Mae'n ein paratoi ar gyfer y gweithle neu brentisiaeth ar ôl coleg. Mae'r cyfleusterau i gyd yma, mae gan y coleg bopeth sydd ei angen arnom, ac mae'r tiwtoriaid yn grêt.

» **JAMIE HARRIS**
GWAITH SAER AR SAFLE

”

GYRFAOEDD POSIBL



**Swyddog Rheoli
Adeiladu**



Rheolwr Safle Adeiladu



Gosodwr Brics



Saer



Syrfêwr Adeiladu



DYMA JAMIE



PEIRIANNEG

Peirianneg yw'r defnydd ymarferol a chreadigol o wyddoniaeth a mathemateg. Mae peirianwyr yn allweddol i fywyd bob dydd; o'r ffonau rydym ni'n eu defnyddio i'r awyrennau rydym ni'n teithio ynddynt. Mae'r sector yn amrywiol, yn cynnig sgiliau medrus iawn ac yn talu'n dda.

GYRFAOEDD POSIBL



Peiriannydd awyrofod



Peiriannydd Sifil



Peiriannydd Mecanyddol



Ergonomydd



Peiriannydd Trydanol

“

Mae llawer o dechnegau addysgu gwahanol yn y coleg ac mae'r cyfleusterau'n dda iawn. Mae ganddyn nhw weithdai llawn offer ar gyfer gwaith ymarferol a llwyth o offer safon diwydianol fel; rhaglenni dylunio CAD 3D ac offer ar gyfer adeiladu cylchedwaith ar-lein. Ar hyn o bryd rwy'n cael fy noddi gan Tata Steel ac yn gobeithio cael cynnig prentisiaeth ar ôl y cwrs hwn.

» **MACSEN DAVIES**
PEIRIANNEG DRYDANOL
UWCH

”



» **MEET MACSEN**

EIN CYRSIAU

	Lefel	Campws
Weldio a Saernïo	1	DC
Technolegau Peirianeg	1	C
Technolegau Peirianeg (Peirianeg Fecanyddol)	3	DC
Diploma mewn Gweithrediadau Peirianeg	2	C
Peirianeg (Technoleg Drydanol ac Electronig)	2	C
Peirianeg (Saernïo a Weldio)	2	DC
Peirianeg (Saernïo a Weldio)	3	DC
NVQ PEO (Saernïo a Weldio)	2	DC
Peirianeg (Trydanol)	3	C
Rhaglen Beirianeg Uwch - Trydanol	3	C
Rhaglen Beirianeg Uwch - Mecanyddol	3	C
Peirianeg Awyrennol	3	BG
Peirianeg Fecanyddol	1	DC
Peirianeg Fecanyddol	2	DC C
Peirianeg Fecanyddol	3	C
Peirianeg Chwaraeon Modur	3	BG DC

Nodyn: Gall pob cwrs newid a'u canslo os tybir nad yw'n bosib eu cynnal.

OEDDECH CHI'N GWYBOD?

Gall peirianwyr ennill hyd at

£60,000 y flwyddyn

O*NET Pathways 2023

BETH NESAF? >>>

Mae llawer o'n dysgwyr peirianeg yn mynd ymlaen i astudio mewn prifysgolion ledled y DU gan gynnwys Coleg Gwent. P'un a ydych am astudio mewn cyd-destun cyffredinol, astudio arbenigedd neu eisiau rhoi'r hyn rydych wedi'i ddysgu ar waith yn y gweithle, bydd Coleg Gwent yn eich cefnogi i wneud hynny yn yr yrfa yr ydych yn ei dewis.

»» TRIN GWALLT A THERAPI HARDDWCH »»

Mae gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio yn y diwydiannau amrywiol a chyffrous o drin gwallt, harddwch, colur a therapïau cyflenwol yn aml ar frig polau cenedlaethol o'r gweithwyr hapusaf yn y DU.

GYRFAOEDD POSIBL



Technegydd Ewinedd



Artist Colur Arbenigol



Perchennog Salon Gwallt



Therapydd Tylino



Therapydd Harddwch

EIN CYRSIAU

	Lefel	Campws
Barbro	2	BG DC
Therapi Harddwch	2	BG C DC
Therapi Harddwch	3	BG C DC
Therapi Harddwch (Estheteg)	3	C
Therapi Harddwch (Estheteg)	4	C
Celfyddyd Trin Gwallt a Cholur y Cyfryngau	2	C
Trin Gwallt a Harddwch	1	BG C
Trin Gwallt	1	BG C DC
Trin Gwallt	2	BG C DC
Effeithiau Arbennig Theatrïg, Gwallt a Cholur y Cyfryngau	3	C

Nodyn: Gall pob cwrs newid a'u canslo os tybir nad yw'n bosib eu cynnal.

BETH NESAF? >>

Gallwch ddatblygu eich astudiaethau ymhellach yn Coleg Gwent a pharhau i wella eich sgiliau ymarferol mewn trin gwallt neu therapi harddwch neu ddysgu sgiliau newydd mewn prostheteg, gwneud modelau o'r corff a gwneud masgiau. Byddwch hefyd yn barod i fynd yn syth i mewn i gyflogaeth, gydag opsiynau sy'n cynnwys gweithio mewn salon, sba neu fel therapydd, triniwr gwallt neu artist colur llawrydd.

OEDDECH CHI'N GWYBOD?

62.5% o'r bobl

sy'n gweithio yn y sector gwallt a harddwch yn hunangyflogedig.

NHBF 2023

>> DYMA SIAN

“

Byddwn 100% yn argymhell Coleg Gwent ar gyfer y cwrs Therapiau Cyflenwol. Mae'r cwrs hefyd yn eich helpu i fagu hyder oherwydd eich bod chi wastad yn cwrdd â phobl newydd, ac rydych chi'n cael llawer iawn o wybodaeth am y corff – mae'r cwrs yn mynd i gymaint o ddyfnder! Byddaf yn edrych ymlaen at fynd i mewn i'r coleg.

”

>> **SIAN SAMANTHA HOWELLS**
THERAPIAU CYFLENWOL

IECHYD, GOFAL A'R » » BLYNYDDOEDD CYNNAR

Gall gyrfa yn y maes iechyd, gofal neu flynyddoedd cynnar fod yn hynod werth chweil a gallwch gael effaith gadarnhaol ar fywydau pobl eraill. Mae'r rhan fwyaf o'n cyrsiau'n cynnwys profiad gwaith fel y gallwch ennill y profiad ymarferol y mae cyflogwyr yn chwilio amdano, gan roi mantais i chi pan fyddwch wedi cymhwyso ar gyfer eich y maes astudio o'ch dewis.



“

Fe wnes i ddewis coleg dros y chweched dosbarth oherwydd roeddwn i eisiau cael i ffwrdd o amgylchedd yr ysgol a chwrdd â phobl newydd. Doedd dim llawer o bobl roeddwn i'n eu hadnabod yma, felly roedd yn gyfle i wneud mwy o ffrindiau newydd. Fe wnes i ddod i ddigwyddiad agored a gwnaeth i mi fod eisiau gwneud cais ar ôl gweld y cyfleusterau, cwrdd â'r staff a cherdded o gwmpas.

”

» OLIVER FARRELL
IECHYD A GOFAL
CYMDEITHASOL

EIN CYRSIAU

	Lefel	Campws
Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plentyn	2	BG C DC T
Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plentyn	3	BG C DC T
Iechyd a Gofal Cymdeithasol	2	BG C DC T
Iechyd a Gofal Cymdeithasol	3	BG C DC T
Cefnogi Dysgu ac Addysgu mewn Ysgolion	2	DC
Cefnogi Dysgu ac Addysgu mewn Ysgolion	3	C DC
Astudiaethau Galwedigaethol - Gofal Plant ac Iechyd a Gofal Cymdeithasol	1	BG C DC T

*Mae unedau dwyieithog ar gael ar gyfer y cwrs hyn.

Nodyn: Gall pob cwrs newid a'u canslo os tybir nad yw'n bosib eu cynnal.

BETH NESAF? >>>

Gallwch astudio amrywiaeth o gyrsiau prifysgol yn Coleg Gwent neu fentro i fyd gwaith fel gweithiwr gofal cartref, cynorthwy-ydd gofal plant neu weithiwr cymorth; mae'r sector hynod amrywiol hwn yn cynnig cannoedd o gyfleoedd. Mae rhai o'n dysgwyr yn mynd ymlaen i astudio mewn prifysgolion ledled y DU naill ai mewn cyd-destun gofal eang cyffredinol neu arbenigo mewn meysydd fel gwaith cymdeithasol, gwyddor iechyd neu nyrsio.

OEDDECH CHI'N GWYBOD?

y gallech, fel nyrs brofiadol, ennill hyd at

£40,588 y flwyddyn

O*NET Pathways 2023

GYRFAOEDD POSIBL >>>



Gweithiwr gofal iechyd



Nyrs



Gwarchodwr plant



Gweithiwr Cymdeithasol



Cynorthwy-ydd Athrawon

SGILIAU BYW'N ANNIBYNNOL

Mae yna ystod o gyrsiau ar gael sy'n addas i fyfyrwyr o amrywiol gefndiroedd a gallu addysgiadol. Fe wnawn ni eich cynorthwyo chi i ddysgu rheoli eich arian eich hun, coginio eich bwyd eich hun, cynllunio eich gyrfa eich hun a byw bywyd annibynnol yn eich cymuned.

 **DYMA CAMERON**

“

Rydym yn cael llawer o hwyl ar y cwrs. Y peth gorau ynghylch y cwrs yw'r tiwtoriaid, maen nhw'n llawn hwyl. Rwyf wedi cwrdd â nifer fawr o bobl newydd ac wedi gwneud ffrindiau hefyd. Gallwch chi roi tro ar unrhyw beth yn cynnwys; coginio, peintio, garddio ac aml chwaraeon. Rydym yn cael cerddoriaeth ar ddydd Mercher hefyd - rwyf wrth fy modd!

”



CAMERON NUTT

SGILIAU BYW'N ANNIBYNNOL



DYSGU SGILIAU HANFODOL >>

Ynghyd â dysgu sgiliau ymarferol, byddwn ni'n eich cynorthwyo chi i gynyddu eich hunanhyder i'ch cynorthwyo chi i fyw bywyd gweithgar. Byddwch chi'n astudio cymysgedd o sgiliau galwedigaethol a chreadigol fel celf a chrefft, coginio, garddio a TG, ynghyd â pharhau i wella eich llythrennedd, rhifedd a sgiliau hanfodol eraill.

DARPARU AR GYFER EICH ANGHENION >

Nid oes gofynion mynediad ffurfiol gan ystyrir anghenion bob dysgwr ar sail unigol; byddwn yn asesu eich anghenion unigol chi i sicrhau eich bod chi'n cofrestru ar y cwrs iawn i chi. Byddwch chi'n cael y cyfle i fynychu rhaglen drosglwyddo lle gallwch chi gwrdd â'r tiwtoriaid, mynychu rhai gwersi a dod i adnabod y coleg cyn i chi ddechrau.

GWEITHGAREDDAU CYFFROUS >

Byddwch chi hefyd yn mynd ar deithiau ac ymweliadau i leoliadau megis amwynderau, amgueddfeydd ac atyniadau twristiaeth lleol ynghyd â chyfranogi mewn gweithgareddau codi arian a menter.

BETH NESAF? >>

Mae ein holl gysiau yn flwyddyn o hyd. Gallwch chi wneud cynnydd un ai o fewn ILS neu o bosib, ymgeisio am gysiau prif ffrwd yn y coleg.

MAE'R RHAGLEN HON YN CANOLBWYNTIO YN CANOLBWYNTIO AR Y PEDWAR PILER CANLYNOL:

- 1 **Iechyd a lles**
- 2 **Cyflogadwyedd**
- 3 **Sgiliau byw'n annibynnol**
- 4 **Cyfranogiad cymunedol**

EIN CYRSIAU

	Lefel	Campws
Sgiliau Byw'n Annibynnol	Mynediad	BG C DC T
Mynediad Paratoi ar gyfer Astudiaethau Galwedigaethol	Mynediad	BG C DC T
Mynediad Paratoi ar gyfer Chefnogaeth gyda Interniaeth/Gwaith Lleoliad	Mynediad	BG C DC T
Interniaeth gyda Chefnogaeth	Mynediad	BG C DC T

Nodyn: Gall pob cwrs newid a'u canslo os tybir nad yw'n bosib eu cynnal.

CERBYDAU MODUR

Os ydych chi wrth eich bodd â cheir neu feiciau modur, bydd ein cyrsiau cerbydau modur yn eich galluogi i ymchwilio i'r pwnc yr ydych yn angerddol amdano, tra'n datblygu eich sgiliau mecanyddol i ennill cymhwyster cydnabyddedig.

OEDDECH CHI'N GWYBOD

y gall peirianwyr modurool
profiadol ennill hyd at

£40,000 y flwyddyn

O*NET Pathways 2023

EIN CYRSIAU

	Lefel	Campws
Atgyweirio Damweiniau (Corff a Phaent)	1	DC
Atgyweirio Damweiniau - Egwyddorion Paent	2	DC
Peirianeg Gerbydau (Egwyddorion Cynnal a Chadw ac Thrwsio Cerbydau Ysgafn)	3	DC
Diploma Lefel 3 mewn Cynnal a Chadw Cyffredinol Cerbydau (FTC1)	Mynediad 3	C DC
Cynnal a Chadw Cerbydau Ysgafn	1	C
Cynnal a Chadw a Thrwsio Cerbydau Ysgafn Allanol	2	C
Egwyddorion Cynnal a Chadw a Thrwsio Cerbydau Ysgafn	2	C DC
Egwyddorion Cynnal a Chadw a Thrwsio Cerbydau Ysgafn	3	C
Egwyddorion Cynnal a Chadw a Thrwsio Beiciau Modur	2	C
Egwyddorion Cynnal a Chadw a Thrwsio Beiciau Modur	3	C
Peirianeg Chwaraeon Moduro	3	BG DC
Ffitio Cyflym Cerbydau	2	C
Cynnal a Chadw Cerbydau	2	DC
Egwyddorion Gosod Cerbydau	1	DC

Nodyn: Gall pob cwrs newid a'u canslo os tybir nad yw'n bosib eu cynnal.

GYRFAOEDD POSIBL



Peiriannydd Modurol



Mecanic Car



Mecanic Beiciau Modur



**Atgyweirydd Corff
Cerbydau**



Rheolwr Garej

DYMA COURTNEY

BETH NESAF? >>>

Mae llawer o'n dysgwyr cerbydau modur yn symud ymlaen i gwrs arall yma yn Coleg Gwent. P'un a ydych am astudio mewn cyd-destun cyffredinol, arbenigo neu eisiau rhoi'r hyn rydych wedi'i ddysgu ar waith yn y gweithle, bydd Coleg Gwent yn eich cefnogi i wneud hynny yn yr yrfa yr ydych wedi'i dewis.

“

Roeddwn i'n nerfus iawn yn dod i'r coleg fel dysgwr aeddfed yn gwneud rhywbeth nad oeddwn i wedi'i wneud o'r blaen, ond dyma'r penderfyniad gorau dwi erioed wedi'i wneud. Dim ond cwpwl o ferched sydd yn fy nosbarth i, ond er gwaethaf hynny, dwi'n teimlo fel mod i'n ffitio mewn efo'r dosbarth - maen nhw i gyd yn groesawgar. Rwyf wrth fy modd yn dysgu am nodweddion ceir a'r diwydiant ceir. Mae'r cyfleusterau yma yn wych ac maent i'r safon y byddech chi'n dod o hyd iddi yn y rhan fwyaf o garejys.

”

>>> COURTNEY WILLIAMS

**CYNNAL A CHADW A
THRSIO CERBYDAU**



» CERDDORIAETH, DRAMA A DAWNS »

Mae Cymru'n gwneud enw iddi ei hun yn y diwydiannau creadigol, un o'r sectorau sy'n tyfu gyflymaf yn y wlad, trwy gynhyrchu sioeau teledu proffil uchel a chartref i gerddorion a chantorion adnabyddus. Beth am ychwanegu at y sêr hyn trwy astudio gyda ni?

“

Mae'r athrawon yn wych - maen nhw'n hawdd gwneud â nhw, yn brofiadol, yn gwybod beth maen nhw'n ei wneud, yn gyfeillgar ac yn gefnogol. Rydym ni'n gwneud llawer o waith cyfansoddi ac mae gennym ni rai traethodau, lot o ddysgu caneuon newydd, ymarfer a pherfformio – rydw i wrth fy modd. Mae'r cyfleusterau'n hollol wych ac mae'r offer bob amser yn cael ei ddiweddarau.

» EWAN WAREHAM
PERFFORMIO
CERDDORIAETH

”

 **DYMA EWAN**



EIN CYRSIAU

	Lefel	Campws
Actio ar gyfer y Llwyfan a'r Sgrin	3	C
Perfformiad a Thechnoleg Cerdd	2	C
Cerddoriaeth	3	C
Cerddoriaeth (Llwybr Technoleg)	3	C
Ymarferwyr Cerdd	3	BG
Theatr Gerdd	3	C
Y Celfyddydau Perfformio	2	C

Nodyn: Gall pob cwrs newid a'u canslo os tybir nad yw'n bosib eu cynnal.

GYRFAOEDD POSIBL



Perfformiwr



**Cynhyrchydd cerddoriaeth,
teledu neu ffilm**



Cyflwynydd



Peiriannydd Sain



Coreograffydd

BETH NESAF? >>>

Gallech aros yn nes at adref a gwneud cymhwyster ar lefel prifysgol neu radd sylfaen yn Coleg Gwent. Fel arall, gallwch fynd ymlaen i astudio mewn prifysgolion ac ysgolion drama ledled y DU. Bydd gennych hefyd yr opsiwn i roi'r hyn rydych chi wedi ei ddysgu ar waith mewn swyddi fel rheoli llwyfan, newyddiaduraeth cerddoriaeth, actio, cyfarwyddo a llawer mwy!

OEDDECH CHI'N GWYBOD?

**Cyflog cyfartalog cynhyrchydd
teledu yn y DU yw tua**

£63,000 y flwyddyn

Arbenigwr Cyflogau, 2023

MYNEDIAD I ADDYSG UWCH

Gellir cyflawni gradd prifysgol hyd yn oed os nad oes gennych unrhyw gymwysterau blaenorol. Bydd cwrs Mynediad i Addysg Uwch yn eich helpu i ddatblygu'r wybodaeth, y sgiliau a'r hyder sydd eu hangen arnoch i'ch paratoi ar gyfer y brifysgol

“

Dewisais wneud y cwrs Mynediad oherwydd fy mod am wneud cais am radd Gweithio gyda Phlant a Theuluoedd. Roedd y ffaith bod y cwrs yn rhad ac am ddim wir yn fy ngwthio i gymryd y naid honno a chofrestru. Byddwn yn argymhell Coleg Gwent yn llwyr i ddarpar fyfyrwyr, rwyf wedi cael amser da iawn yn ystod y cwrs hwn ac mae'r amgylchedd yn gyffredinol yn darparu cefnogaeth a chymorth.

» SARA
MYNEDIAD I AU

”



 DYMA SARA

PAM ASTUDIO CWRYS MYNEDIAD I ADDYSG UWCH?

»» GWELLA RHAGOLYCON

Bydd yn agor drysau newydd, gan ei gwneud yn fwy tebygol y byddwch yn cael y llwyddiant a fydd yn eich helpu i gyflawni eich breuddwydion o ran gyrfa.

»» ADEILADU SGILIAU HANFODOL

Mae'n profi bod gennych sgiliau gwerthfawr fel astudio'n annibynnol a chwrdd â therfynau amser.

»» DANGOS LLWYDDIANT

Mae prifysgolion eisiau cadarnhad eich bod yn gymwys ar lefel 3.

»» PROFI EICH HUN

Mae hyn yn dangos eich gallu i ymrwymo, ymdopi gyda gwaith caled a dal ati i'r diwedd.

»» PROFIAD GWYCH

Yn ogystal â rhoi cymhwyster i chi, byddwch yn ennill cyfoeth o brofiad a byddwch yn gwneud cysylltiadau i'ch helpu yn y dyfodol.

EIN CYRSIAU

	Lefel	Campws
Mynediad i AU – Biowyddoniaeth	3	T
Mynediad i AU – Gwyddorau Iechyd (a Meddygol)	3	DC
Mynediad i AU - Meddygaeth	3	C
Mynediad i AU – Gofal Iechyd (gan gynnwys Nyrsio)	3	BG C DC T
Mynediad i AU - Plismona	3	BG
Mynediad i AU - Y Dyniaethau a'r Gwyddorau Cymdeithasol	3	BG DC
Sgiliau ar gyfer Astudiaethau Pellach	2	BG C DC T

Nodyn: Gall pob cwrs newid a'u canslo os tybir nad yw'n bosib eu cynnal.

BETH NESAF? »»

Mae cyrsiau Mynediad i Addysg Uwch wedi'u cynnwys yn y tariff UCAS ac fe'u derbynnir yn eang gan brifysgolion y DU ond dylech wirio gyda'r brifysgol benodol yr hoffech fynd iddi. A yw'n well gennych aros yn lleol ac arbed arian? Gallai cwrs lefel prifysgol yn Coleg Gwent fod yn berffaith i chi.

GWYDDONIAETH

Wrth astudio cwrs gwyddoniaeth gyda ni, byddwch yn dysgu cymhwysu egwyddorion gwyddonol i broblemau ymarferol, fel y gallech weithio tuag at ddod o hyd i iachâd i glefydau, datrys materion amgylcheddol, neu ddatblygu technoleg newydd.

GYRFAOEDD POSIBL



Biocemegydd



Gwyddonydd Fforensig



Technegydd Labordy



Patholegydd



Biolegydd

OEDDECH CHI’N GWYBOD?

Mae llawer o’r cwmnïau technoleg sy’n dibynnu ar weithwyr proffesiynol gwyddoniaeth yn fyd-eang. Felly gallai gyrfa yn y sector hwn eich gweld yn teithio’r byd, yn datrys heriau rhyngwladol neu’n gweithio mewn labordai fforensig yn y DU neu dramor.

BETH NESAF?

Mae llawer o fyfyrwyr gwyddoniaeth yn mynd ymlaen i astudio cymhwyster prifysgol yn Coleg Gwent, neu’n symud ymlaen i gyrsiau yn y prifysgolion gorau ledled y DU. Gallech ddilyn pwnc gwyddoniaeth cyffredinol neu arbenigo mewn meysydd fel bwyd neu wyddorau dynol, gwyddoniaeth fforensig neu seicoleg. Neu fe allech chi roi’r hyn rydych chi wedi’i ddysgu ar waith mewn rolau sy’n gysylltiedig â gwyddoniaeth ar lefel iau.



EIN CYRSIAU

	Lefel	Campws
Gwyddoniaeth Gymhwysol	2	DC
Gwyddoniaeth Gymhwysol	3	C DC T

Nodyn: Gall pob cwrs newid a'u canslo os tybir nad yw'n bosib eu cynnal.

“



Dewisais Coleg Gwent i astudio Gwyddoniaeth oherwydd mae'n well gen i amgylchedd y coleg. Mae'r tiwtoriaid yn anhygoel wrth ein helpu gyda'n gwaith. Maen nhw'n wahanol i athrawon yn yr ysgol, gan eu bod yn fwy agored, yn fwy hamddenol ac yn ein trin ni'n well. Y peth gorau am Coleg Gwent yw'r profiad a gawn yn y coleg hwn, y ffaith ei fod wir yn derbyn pawb, ac mae cymorth megis cwnsela ar gael yn rhwydd.

» **ARC SHARP**
GWYDDONIAETH
GYMHWYSOL

”



» CHWARAEON, FFITRWYDD A HAMDDEN »

Bydd ein cyrsiau mewn chwaraeon, ffitrwydd a hamdden yn eich rhoi ar flaen y gad ar gyfer rhai proffesiynau cyffrous. Mae yna hefyd ddigon o dimau chwaraeon i ymuno â nhw ym mhob campws!

ACADEMI RYGBI'R DREIGIAU »



Mae Campws Crosskeys yn gartref i Academi Rygbi Iau Dreigiau Coleg Gwent, lle gall chwaraewyr ennill cymwysterau ochr yn ochr ag ennill sgiliau ar y cae.

Mae nifer o'n cyn chwaraewyr yr academi wedi mynd ymlaen i chwarae i Gymru, gan gynnwys Tyler Morgan, Elliot Dee a Olli Griffiths.



OPSIYNAU GYRFA »



Hyfforddwr
Chwaraeon



Hyfforddwr
Personol



Therapydd Tylino
Chwaraeon



Rheolwr Canolfan
Hamdden



Hyfforddwr Ffitrwydd

EIN CYRSIAU

	Lefel	Campws
Hyfforddi Iechyd, Ffitrwydd ac Ymarfer Corff	2	B
Chwaraeon	2	BG C
Chwaraeon	3	BG C T

Nodyn: Gall pob cwrs newid a'u canslo os tybir nad yw'n bosib eu cynnal.

BETH NESAF? >>>

Mae rhai o'n dysgwyr yn dewis parhau i ddilyn cwrs lefel uwch yn y Brifysgol neu yn Coleg Gwent. Fel arall, gallwch fynd yn syth i mewn i gyflogaeth. Mae cyfleoedd gyrfa yn amrywiol ac yn werth chweil!

OEDDECH CHI'N GWYBOD?

Mae hyfforddwyr personol hunangyflogedig yn ENNILL TUA

£20-40

am sesiwn awr

Gyrfa Cymru, 2022

“

Byddwn yn bendant yn argymhell Coleg Gwent, mae gan y cwrs lawer o amrywiaeth gan gynnwys pêl-droed, rygbi, hyfforddiant athletau, pêl-rwyd a mwy. Mae'r system gefnogaeth gan y tiwtoriaid yn dda iawn hefyd. Rydych chi'n llawer agosach at diwtoriaid yn y coleg ac maen nhw'n llai llym nag athrawon yn y chweched dosbarth. Byddwn i'n cynghori unrhyw un i fynd i'r coleg oherwydd ei fod yn rhoi mwy o annibyniaeth a chymhelliant i chi.

>>> **DARNIA COLEMAN**
CHWARAEON

”

DYMA DARNIA



Parth Dysgu Blaenau Gwent
Parth Dysgu Torfaen
Torfaen Learning Zone

GWASANAETHAU CYHOEDDUS

Mae gwasanaethau cyhoeddus wrth wraidd ein cymuned, felly mae dilyn gyrfa yn y gwasanaethau mewn lifrai neu wasanaethau heb lifrai yn cyflawni rôl hanfodol mewn cymdeithas. Drwy astudio gyda ni, cewch gyfle i ddod yn gadét yr heddlu mewn partneriaeth â Heddlu Gwent.

OEDDECH CHI’N GWYBOD?

Cyflog blynyddol swyddog heddlu profiadol ar gyfartaledd yw

£43,000

Gyrfa Cymru, 2022

BETH NESAF? >>>

Gallech fynd ymlaen i astudio cymhwyster lefel uwch yn Coleg Gwent, fel arall gallech fynd yn syth i mewn i gyflogaeth. Gallai opsiynau gyrfa gynnwys diffoddwr tân, swyddog heddlu, ymchwilydd lleoliad trosedd a mwy!

EIN CYRSIAU

	Lefel	Campws
Astudiaethau Galwedigaethol – Chwaraeon a Gwasanaethau Cyhoeddus	1	BG C
Gwasanaethau Cyhoeddus	2	BG C T
Gwasanaethau Cyhoeddus	3	BG C T

Nodyn: Gall pob cwrs newid a’u canslo os tybir nad yw’n bosib eu cynnal.

“

Byddwn yn argymhell Coleg Gwent oherwydd bod gan y darlithwyr lawer o brofiad yn y diwydiant, roedd un o’n darlithwyr yn yr heddlu. Rydych chi’n cael llawer mwy o amrywiaeth nag y byddech chi yn y chweched dosbarth; rydym wedi cael yr adran dân yn dod i mewn ac yn gwneud sesiwn ymarferol gyda ni, cawsom hefyd sesiwn gyda’r heddlu a dysgu am ymddygiad gwrthgymdeithasol a chael gwobr ar y diwedd, rydym hefyd wedi dysgu sut i asesu golygfeydd trosedd, a oedd yn cwl iawn.

>>> ELINA STEPHENS

GWASANAETHAU
CYHOEDDUS

”



TEITHIO A THWRISTIAETH

P'un a ydych chi'n mynd amdani fel stiward aer, cynrychiolydd gwyliau neu'n helpu eraill i wireddu eu breuddwydion teithio, gallwch fynd yr holl ffordd i lefel rheoli; gallwch ddechrau eich taith yma yn Coleg Gwent.

OEDDECH CHI'N GWYBOD?

Gall pob un o'n dysgwyr wneud cais am

gyllid Erasmus ac ymweld â gwlad Ewropeaidd

fel rhan o'u hastudiaethau i ennill profiad uniongyrchol hefyd!

BETH NESAF? »

Gallech fynd ymlaen i astudio cymhwyster lefel uwch yn y brifysgol, fel arall gallech fynd yn syth i mewn i gyflogaeth. Gallai opsiynau gyrfa gynnwys cynghorydd teithio, cynrychiolydd gwyliau, criw caban, cynorthwy-ydd maes awyr a mwy!

EIN CYRSIAU

	Lefel	Campws
Teithio a Thwristiaeth	2	C
Teithio a Thwristiaeth	3	C

Nodyn: Gall pob cwrs newid a'u canslo os tybir nad yw'n bosib eu cynnal.

“

Byddwn yn argymhell Coleg Gwent oherwydd bod yr unedau'n hwyliog ac yn bleserus, ac rydym yn cael dysgu am yr hyn sy'n digwydd y tu ôl i'r llenni yn y diwydiant teithio. Mae'r cwrs yn eich paratoi ar gyfer gwaith yn y dyfodol ac rydym wedi dysgu sgiliau fel gwaith tîm, cyfathrebu, gwasanaeth cwsmeriaid a sgiliau pobl. Mae'r athrawon yn neis ac yn hollol wahanol i'r chweched dosbarth - maen nhw'n cael hwyl ac yn rhannu jôcs gyda ni, ond yn barod iawn i helpu os ydych mewn anhawster.

» FIN DAVIES
TEITHIO A
THWRISTIAETH



DYMA FIN



»» CYRSIAU LEFEL PRIFYSGOL

»» YMA AR GARREG EICH DRWS



A WYDDOCH CHI Y GALLWCH CHI
ENNILL CYMHWYSTER LEFEL
PRIFYSGOL YN COLEG GWENT?

Mae gennym nifer cynyddol o gyrsiau
addysg uwch, felly beth am edrych ar
ein gwefan i ddysgu mwy?

»» WWW.COLEGGWENT.AC.UK/AU



Cardiff
Metropolitan
University

Prifysgol
Metropolitan
Caerdydd



»» CYRSIAU RHAN AMSER

»» LLWYDDWCH A CHYFLAWNWCH



MAE GENNYM NI AMRYWIAETH ENFAWR
O GYRSIAU RHAN AMSER HYBLYG AC
AM DDIM SY'N ADDAS I CHI.

Cymerwch olwg ar ein gwefan

»» WWW.COLEGGWENT.AC.UK/RA

